

# Asesu Risg Llwybrau a Gerddir i'r Ysgol

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw: Rebecca Williams

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): UCAC

E-bost / Rhif ffôn:

[rebecca@athrawon.com](mailto:rebecca@athrawon.com); 01970 639950

Eich cyfeiriad post: UCAC, Ffordd Penglais,  
Aberystwyth SY24 5EY

### Cwestiwn 1: Beth yw gwendidau/cryfderau'r drefn asesu risg bresennol?

Mae aelodau UCAC wedi codi mater o bryder mewn perthynas â'r trefniadau presennol mewn ambell i sir – sef bod yr ysgolion eu hunain (yn hytrach na swyddogion yr Awdurdod Lleol) yn gorfod cerdded ac asesu'r llwybrau a gerddir i'r ysgol. Wrth reswm, mae hyn yn faich sylweddol iawn ar ysgolion – ac un dianghenraid gan mai ar yr Awdurdodau Lleol y mae'r cyfrifoldeb.

Awgrymwn ychwanegu cymal yn y canllawiau arfaethedig sy'n ei gwneud hi'n gwbl ddigamsyniol mai ar yr Awdurdodau Lleol y mae'r cyfrifoldeb ac na ddylid dirprwyo'r cyfrifoldeb hwnnw i ysgolion.

Fel arall, cytunwn ag asesiad y ddogfen ymgynghorol o'r sefyllfa parthed gwendidau a chryfderau'r drefn asesu risg bresennol.

### Cwestiwn 2: A ydych chi'n credu bod y cynigion hyn yn syniad da? Pam?

Cytunwn â'r cynigion. Maent yn ymateb i bryderon dilys, ac maent yn amlinellu ffordd cymesur a chall o fynd i'r afael â'r pryderon hyn er mwyn sicrhau safonau uwch mewn perthynas â diogelwch dysgwyr wrth gerdded i'r ysgol.

Mae cynnwys safbwyntiau dysgwyr fel rhan o'r asesiad yn gam synhwyrol iawn gan mai nhw sy'n gorfod cerdded y llwybrau bob dydd, ac mi allant fod yn ymwybodol o ffactorau nad ydynt yn amlwg i swyddogion wrth iddynt ymgymryd ag asesiad risg. Rhaid sicrhau i'r graddau fwyaf posib bod dysgwyr nid yn unig yn *ddiogel* ond eu bod yn *teimlo'n ddiogel* yn ogystal.

### Cwestiwn 3: A allwch chi awgrymu ffactorau risg ychwanegol ar hyd llwybrau a gerddir i'r ysgol (yn ogystal â'r rhai a restrwyd eisoes yn Atodiad B)?

**Cwestiwn 4: Pryd a pha mor aml y dylid asesu risg llwybrau a gerddir i'r ysgol?**

**Cwestiwn 5: A oes unrhyw sbardunwyr eraill a ddylai arwain at asesiad**

Unrhyw adroddiad gan riant neu ddysgwyr ynghylch ffactor nad yw eisoes yn hysbys i'r awdurdod, neu unrhyw ddigwyddiad â goblygiadau ar gyfer diogelwch ddysgwyr.

**Cwestiwn 6: Yn eich barn chi, pa oed ddylai plant fod cyn gallu cerdded i'r ysgol ar eu pennau eu hunain? Pa ffactorau ddylai effeithio/dylanwadu ar y penderfyniad hwn?**

**Cwestiwn 7: Sut y dylid pwysoli'r meini prawf amrywiol a ddefnyddir i asesu a yw llwybr ar gael?**

**Cwestiwn 8: Beth fyddai'r fformat safonol gorau ar gyfer cynnal asesiad risg (er mwyn helpu i sicrhau dull gweithredu cyffredin ledled Cymru) - er enghraifft, ticio blychau, profforma?**

**Cwestiwn 9: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i sôn amdanynt:**

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi - ar y rhyngwrdd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: